Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Gylch Meithrin Betws Yn Rhos

**Ystafell Gefn**
**Neuadd Pentref**
**Betws Yn Rhos**
**LL22 8AW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Betws Yn Rhos

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Betws yn Rhos |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Ddydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Linda Griffiths a Meira Woosnam |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Linda Griffiths |
| Nifer y lleoedd | 18 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 12 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 4 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun a Dydd Iau 8 tan 5Dydd Mawrth a Mercher 8 tan 3Dydd Gwener 8 tan 1 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 23 Mai 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mai 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 23/03/2023 |
| Mae nifer fawr o'r plant yn dod o gartrefi di-Gymraeg. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Ehangu ar y cyfleoedd i'r plant chwarae a dysgu'n annibynnol

A2 Gwella'r defnydd o arsylwadau i lywio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A3 Sicrhau fod cyfleoedd dysgu yn caniatáu i blant ddatblygu eu medrau yn llawn

A4 Sicrhau bod ymarferwyr yn manteisio ar yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig er mwyn gwella eu harbenigedd cyfredol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan bron bob un o’r plant lais cryf, a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau’n hyderus wrth chwarae. Mae’r rhan fwyaf yn symud rhwng wahanol weithgareddau yn hyderus ac yn dilyn eu hoffterau personol yn effeithiol, er enghraifft, wrth helpu eu hunain i adnoddau o’u dewis. Maent yn hyderus ac yn dilyn eu hoffterau personol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn mwyhau gwylio’r tractor yn torri’r borfa o’r ffenest, ac yn hyderus i ddweud nad ydynt yn barod am eu byrbryd eto gan eu bod yn dymuno parhau i wylio’r tractor.

Mae bron bob plentyn yn hapus i ofyn cwestiwn neu holi am rywbeth gan eu bod yn cael ymateb da gan ymarferwyr. Maent yn fodlon ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Maent yn cyrraedd y lleoliad yn fodlon ac yn ymdopi’n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a’u gofalwyr. Mae’r ychydig iawn o blant sy’n llai hyderus yn derbyn cymorth gan ymarferwyr i’w helpu i setlo. Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod cyfnodau chwarae rhydd ac yn ystod gweithgaredd grŵp. Mae llawer o’r plant yn rhannu adnoddau’n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cymryd tro i beintio gyda gwahanol liwiau o botiau paent ac yn pasio nhw at eu gilydd wedi gorffen. Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae cyffrous. Er enghraifft, yn neidio yn y pyllau dŵr tu allan gan chwerthin gyda bwrlwm wrth iddynt wneud y dŵr dasgu ar eu hesgidiau a’u dillad glaw.

Mae bron bob un o’r plant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gydag ymarferwyr a’u ffrindiau ac yn mynd at ymarferwyr i rannu eu chwarae neu am gysur.Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, ac maent yn sgwrsio a chwerthin wrth chwarae gyda’r fferm neu greu darlun allan o sticeri. Maent yn mwynhau symud o un weithgaredd i’r nesaf, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, maent wrth eu boddau yn peintio enfys ac arbrofi drwy gymysgu gwahanol liwiau ac yn cyfnewid gwahanol lliwiau rhwng eu gilydd. Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Maent yn cael dewis da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell chwarae ac yn yr ardal allanol. Mae bron bob un o’r plant yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth da iawn. Er enghraifft, maent yn torri ffrwyth eu hun amser byrbryd ac yn arllwys llefrith neu dŵr mewn i gwpan. Maent yn defnyddio’r toiled yn hyderus, ac yn golchi a sychu eu dwylo yn ddi-gymell.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Ni roddwyd barn. Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth da ar gyfer plant. Maent yn gweithredu polisïau priodol i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy’n

cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn hyderus ar sut i weithredu petai ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau ac yn darparu cyfleoedd addas i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Maent yn rhoi negeseuon diogelwch i'r plant, er enghraifft am beidio a bwyta grawnwin oedd heb ei dorri ac yn egluro'r  risg o dagu. Yn ogystal, maent yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau yn briodol. Mae ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad, ac yn gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn gwrando ar safbwyntiau plant, ac yn ymateb yn dda iddynt.

Mae rhyngweithio'r ymarferwyr â'r plant yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn ffurfio perthynas waith agos iawn gyda'r plant. O ganlyniad, mae'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau'r ymarferwyr yn ddeallus. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd ati'n ddiffwdan i dacluso ac yn derbyn diolch am gydweithio. Mae ymarferwyr yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol iawn. Maent yn sicrhau bod y plant yn gartrefol ac yn hapus gan drafod cyfleoedd chwarae gyda'r plant a holi chwestiynau pen agored yn fedrus iawn. Er enghraifft, maent yn trafod suddo ag arnofio pan roddodd blentyn ellygen yn ei gwpan dŵr. Mae gan y lleoliad brosesau effeithiol mewn lle ar gyfer cwrdd ag anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm cytbwys a diddorol ac maent yn cyd-gynllunio'n briodol i hybu dysgu'r plant trwy amrywiaeth o weithgareddau ymarferol. Maent yn holi'r plant yn ddeallus ac yn dilyn diddordebau'r plant yn synhwyrol. Er enghraifft, caiff y plant gyfleoedd annibynnol i adeiladu fferm â siapiau tri-dimensiwn ac i rifo brogaod yn y twb dŵr. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn darparu digon o gyfnodau lle gall y plant chwarae a dysgu'n annibynnol.

Mae ymarferwyr yn asesu cynnydd y plant yn rheolaidd yn ystod eu gweithgareddau, er enghraifft pan fyddant yn creu rhythmau gwahanol gyda drymiau a gitâr. Fodd bynnag, er eu bod yn cyfuno trafodaethau cyson gyda'r plant â'u hasesiadau yn briodol, nid ydynt yn cynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn gwbl effeithiol. Maent yn defnyddio'r asesiadau i ddarparu gwybodaeth fuddiol o gyflawniadau'r plant i'w rhieni a'u gofalwyr trwy gynnig ymweliadau achlysurol i'r lleoliad a chynnal trafodaethau ganddynt yn rheolaidd. Yn ogystal, gwneir defnydd da o gyfryngau cymdeithasol i gysylltu â rhieni a gofalwyr am weithgareddau'r plant a threfniadau'r lleoliad.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau digidol, llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn ymestyn eu dealltwriaeth trwy eu hysgogi i ddyfalbarhau wrth chwarae, er enghraifft wrth ddefnyddio brwshys paent i greu enfys a rhaglennu cerbydau electronig i ddilyn llwybr penodol. Maent yn sbarduno'r plant i greu pry copyn trwy ddefnyddio olion llaw ac i ddilyn patrymau wrth drefnu siapiau

lliwgar ar begiau. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cymell y plant yn effeithiol i greu marciau wrth ysgrifennu eu henwau ar fyrddau gwyn, a'u hannog i ddidoli a rhifo tedis yn ôl lliw a maint.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i ysbrydoli'r plant i geisio datblygu ystod eang o fedrau. Mae dulliau addysgu synhwyrol yr ymarferwyr yn cefnogi'r plant i gydweithredu'n bwrpasol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Maent yn darparu gweithgareddau difyr, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu medrau gwybyddol da. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i lifo brigau a'u gwehyddu gyda'i gilydd i greu dyn pren a dilyn rysait i bobi bisgedi a thartenni jam. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn sicrhau fod y cyfleoedd dysgu yn herio'r plant i eithaf eu gallu i ddatblygu eu medrau'n llawn.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Maent yn eu hannog i yrru beiciau a thractorau yn frwdfrydig ac i gamu'n ofalus ar lwybr antur. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol fel ymarfer yoga a dawnsio i rythmau cerddoriaeth Affricanaidd. Yn ogystal, maent yn annog y plant i gymysgu dŵr a phridd yn y gegin fwd i greu prydau, ac yn eu sbarduno i chwarae rôl trwy wisgo mygydau i efelychu anifeiliaid y jyngl.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu hanes Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, cestyll lleol a nodweddion yr arfordir. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn dda trwy astudio traddodiadau Tsieiniaidd ac arferion Ramadan.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r person â gofal sydd hefyd yn un o'r personau cofrestredig, yn darparu amgylchedd addas, diogel, a glân ar gyfer plant. Mae'n sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu rhagofalon diogelwch yn effeithiol, fel gwirio'r ardal awyr agored i gael gwared â pheryglon cyn i blant ei ddefnyddio. Mae'r person â gofal a'r ymarferwyr yn cwblhau rhestr wirio risgiau ar gyfer pob ardal yn ddyddiol ac yn cwblhau asesiadau risg generig digonol.

Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac mae bob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol sydd ar gael. Mae'r amgylchedd yn caniatau i blant gael y cyfle i fynd i'r toiledau a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae'r person â gofal yn dilyn trefniadau cyson ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd a threfniadau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae ei harferion rheoli heintiau cadarn yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch plant.

Mae prif ystafell y lleoliad yn groesawgar a chyfeillgar, ac yn cynnig amgylchedd ysgogol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r person â gofal yn gwneud defnydd da o'r ystafell a'r ardal allanol i ddarparu ardaloedd dysgu trefnus y gall plant eu defnyddio yn annibynnol. Er enghraifft, mae'r ardal chwarae rôl yn hyrwyddo profiadau dysgu trwy gynnig adnoddau a dodrefn ar lefel isel. Mae'r person â gofal a'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i ddefnyddio'r gofod chwarae yn yr awyr agored bob dydd.

Mae'r person â gofal yn sicrhau y gall bron bob plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol o ran eu hoedran ac o ansawdd da. Er

enghraifft, mae basgedi a silffoedd agored i'r plant ymchwilio ynddynt a llawer o ddodrefn naturiol ac o'r cartref ar gael. Mae'r person â gofal yn darparu adnoddau i annog chwilfrydedd plant am y gymdeithas ehangach, gan hyrwyddo cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad plant yn yr awyr agored drwy gynnig ystod dda o adnoddau sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gweledigaeth synhwyrol yr arweinwyr ynglŷn â sicrhau darpariaeth bwrpasol yn galluogi ymarferwyr i weithredu'n effeithiol i wella deilliannau'r plant. Mae arweinwyr wedi datblygu strategaethau arwain sefydlog iawn, sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar gynnig profiadau difyr i ddatblygu lles a dysgu'r plant. Mae agweddau cadarnhaol yr ymarferwyr yn hybu cydweithio effeithiol. Mae ymarferwyr yn rhannu'r weledigaeth gytûn o greu amgylchedd prysur, sy'n canolbwyntio ar gynnal lles a hyder y plant yn fwriadus. Yn ogystal, mae prosesau recriwtio diogel yn eu lle, ac mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau effeithiol i gynnal brwdfrydedd ymysg yr ymarferwyr i hybu dysgu'r plant.

Mae'r person â gofal yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso priodol, sy'n arwain at dargedau synhwyrol ar gyfer gwelliant. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar greu gwelliannau i ddatblygu arferion y lleoliad ymhellach. Ar y cyfan, maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella yn dda. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar ddatblygu arferion cynllunio newydd ac effeithiolrwydd eu hasesiadau dyddiol.

Mae asiantaethau cefnogi yn annog y person â gofal a'r ymarferwyr i fynychu hyfforddiant perthnasol ac i fabwysiadu eu hawgrymiadau i wella'u gwybodaeth a'u harferion addysgu, cynllunio ac asesu. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cymryd mantais o'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig. Mae hyn yn llesteirio ar gyfleoedd i wella arbenigedd cyfredol yr ymarferwyr, fel sut i fireinio'r cynllunio ac addasu'r arferion asesu.

Mae arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau pwrpasol gyda'r holl randdeiliaid, fel yr ysgol leol, y rhieni a'r gofalwyr, i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn gweithredu ar gyngor yr ysgol i wella'r adnoddau yn yr ardal allanol, er mwyn dilyn diddordebau'r plant yn well. Yn ogystal, maent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i ddarparu gwybodaeth gyfredol o brofiadau'r plant i'w rhieni a'u gofalwyr.

Mae arweinwyr yn sicrhau gofal bugeiliol cadarn ar gyfer y plant, sy'n creu ymdeimlad hyfryd o berthyn ymysg y plant a'r oedolion. Mae'r awyrgylch glòs a chynhaliol hon yn cymell y plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu. Mae'r berthynas gynhyrchiol gyda'r ysgol leol yn atgyfnerthu dealltwriaeth y plant o'u cynefin ac yn eu paratoi tuag at y cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r person â gofal wedi ffurfio ystod o bartneriaethau cadarn yn lleol, sy'n cynnig profiadau difyr i'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn mynychu'r siop leol a'r garej i brynu nwyddau ac ymweld â'r traeth i astudio creaduriaid y môr.

Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n bwrpasol. Maent yn defnyddio'r gyllideb yn effeithiol gan flaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn synhwyrol. Er enghraifft, mae'n defnyddio grantiau'n ddeallus, er mwyn cyllido adnoddau amrywiol, fel adnoddau electronig, pabell bren a chegin fwd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/06/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 01 Mehefin 2023